NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Rivaroxaban ar gyfer atal digwyddiadau atherothrombotig mewn pobl â chlefyd coronaidd neu glefyd rhydwelïau ymylol

17 Hydref 2019

Mae rivaroxaban (Xarelto) gydag aspirin ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer atal digwyddiadau atherothrombotig (megis strôc neu drawiad ar y galon) mewn oedolion sy'n wynebu risg uchel oherwydd bod ganddynt:

- glefyd rhydwelïau ymylol neu
- glefyd rhydwelïau coronaidd ac:
  - maent yn 65 neu'n hŷn, neu
  - mae ganddynt atherosclerosis (dyddodion brasterog) mewn o leiaf 2 rydweli, neu
  - mae ganddynt o leiaf 2 ffactor risg ychwanegol megis smygu, diabetes, mathau penodol o broblemau sy'n ymwneud â'r arennau, methiant y galon, neu maent wedi cael math o strôc a elwir yn strôc isgemig angheudodol.

Gall rivaroxaban gydag aspirin gynyddu'r risg o waedu. Felly, mae angen asesu eich risg o waedu cyn penderfynu a ddylid dechrau triniaeth.

Os nad ydych yn gymwys i gael rivaroxaban, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

**Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Heart UK, 0345 450 5988
- Sefydliad Pumping Marvellous, 01772 796542
- Diabetes UK, 0345 122 399
- Thrombosis UK

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3510-9



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.